**Urdd Gobaith Cymru**

**Datganiad yn Adrodd ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau**

**Adroddiad gan Urdd Gobaith Cymru ynglŷn â'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yw hwn.**

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Adran Adnoddau Dynol Urdd Gobaith Cymru:**

swyddi@urdd.org

O Ebrill 2017 ymlaen o dan Reoliadau 2017 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith fod pob sefydliad yn y DU sy'n cyflogi mwy na 250 o weithwyr yn cyhoeddi'r gwahaniaeth rhwng cyflogau dynion a menywod dros gyfnod safonol. Gelwir hyn yn Adrodd ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau.

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn rhoi ciplun o'r cydbwysedd rhwng dynion a menywod mewn sefydliad ar adeg benodol. Mae'n mesur y gwahaniaeth rhwng cyflogau cyfartalog yr holl ddynion a merched, beth bynnag fo'u rôl, ac yn dangos y gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog (cymedr neu ganolrif) y ddau ryw. Mae'r ystadegau yn yr adroddiad hwn yn rhoi ciplun o broffil gweithwyr yr Urdd ar 31 Mawrth 2024.

**Ffigurau ar gyfer y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau**

**Cyfradd Cyflog Fesul Awr**

| | 2024 | 2023 | 2022 |
|---|---|---|---|
| Cymedr y bwlch cyflog rhwng y rhywiau: | -5.6% | -5.2% | -5% |

Sy'n golygu bod cyfradd fesul awr i fenywod 5.6% yn uwch na chyfradd dynion. Wrth gymharu cyfraddau fesul awr mae menywod yn ennill £1.06 am bob £1 y mae dynion yn ei ennill.

| | 2024 | 2023 | 2022 |
|---|---|---|---|
| Canolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau: | 1% | 0% | 7% |

Sy'n golygu bod cyfradd fesul awr i fenywod 1% yn is na chyfradd dynion. Wrth gymharu cyfraddau fesul awr canolrif, mae menywod yn ennill £0.99 am bob £1 y mae dynion yn ei ennill.

Nid yw gweithwyr yr Urdd yn derbyn taliadau bonws.

**Chwarteli cyflog yn ôl rhyw**

| | 2024 | | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw |
| Chwartel Uchaf | 42% | 58% | 43% | 57% | 41% | 59% |
| Chwartel Canol Uwch | 40% | 60% | 45% | 55% | 53% | 47% |
| Chwartel Canol Is | 44% | 56% | 50% | 50% | 37% | 63% |
| Chwartel Isaf | 35% | 65% | 39% | 61% | 36% | 64% |

*Mae'r canlyniadau uchod yn seiliedig ar 330 o weithwyr – 133 Gwryw (40.3%) a 197 Benyw (59.7%)*

Mae'r Urdd wedi ymrwymo i egwyddor fod pawb yn cael cyfle cyfartal ac yn cael eu trin yn gyfartal, beth bynnag fo'u rhyw neu eu cefndir. Rydym wedi mabwysiadu agwedd tuag at Gyflogau Staff sy'n sicrhau bod staff yn cael eu trin a'u gwobrwyo'n gyfartal, beth bynnag fo'u rhyw.

Gallwn gadarnhau nad yw'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o dalu cyflogau gwahanol i ddynion a menywod am yr un gwaith neu waith cyfwerth.

**Mesurau i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau**

Er bod yr Urdd yn hyderus yn ei agwedd tuag at gyflogau staff, rydym yn cydnabod nifer o fesurau y byddai modd eu mabwysiadu i fynd i'r afael â'r bwlch:

- Rydym yn gweithredu polisi gweithio'n hyblyg ac yn cefnogi amrywiaeth o drefniadau gweithio hyblyg ledled y mudiad. Byddwn yn parhau i gefnogi a hyrwyddo'r cyfleoedd hyn ble bynnag y bo hynny'n bosibl.

- Rydym yn defnyddio system Adnoddau Dynol sydd yn ein galluogi ni i lunio adroddiadau a chynnal dadansoddiadau o bobl, gyda'r gallu i nodi unrhyw anghydbwysedd a'i ddatrys fel y bo'n briodol, er enghraifft:

    - Adrodd ar newidiadau mewn cyflog a chyflogau cychwynnol newydd er mwyn adolygu'r cyflogau sy'n cael eu cynnig i weithwyr gwrywaidd a benywaidd;
    - Adolygu'r gwahaniaeth rhwng nifer y dynion a'r menywod sy'n cael cyfleoedd am ddyrchafiad yn y mudiad;

Fel y gwelir o'n ffigurau, llenwir dros 59.7% o swyddi'r Urdd gan fenywod, sy'n golygu eu bod yn parhau i chwarae rhan allweddol o'r gweithlu. Mae nifer o'r menywod hyn mewn swyddi rheoli ac yn gwneud penderfyniadau allweddol o fewn y mudiad, gan gynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Gwersyll Llangrannog, Cyfarwyddwr Gwersyll Glan Llyn, Cyfarwyddwr Ieuenctid a Chymuned, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Rhyngwladol, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau, a Cyfarwyddwr Gwersyll Caerdydd, ac mae pob un o'r rhain yn aelodau'r Uwch Dîm Rheoli.

Siân Lewis
Prif Weithredwr
Urdd Gobaith Cymru